Strategaeth Cludiant Cymunedol Gwynedd

Cynhyrchwyd ar gyfer

Cyngor Gwynedd

gan CTA UK

Medi 2007

Tabl Cynnwys

1 Cyflwyniad 3

2 Cludiant Cymunedol 3

3 Y Cyd-destun Polisi Lleol 5

4 Cyd-destun Polisi'r DU, Cymru a'r Rhanbarth 7

5 Strategaeth ar gyfer y Dyfodol 8

6 Cynllun Gweithredu 10

7 Deilliannau Posib 13

8 Rhoi ar Waith, Monitro ac Adolygu 15

Atodiad 1: Map yn Dangos yr Ardal dan sylw a'r Gwasanaeth a Gynigir gan Weithredwyr CC 17

Atodiad 2: Cydlynydd Cludiant Cymunedol Gwynedd 18

Atodiad 3: Fforwm Cludiant Gwynedd 20

Atodiad 4: Cynnig ar gyfer Prosiect Cludiant Peilot yn y Bala 21

Atodiad 5: Enghraifft o safonau sylfaenol ar gyfer CC 22

Atodiad 6: Hyffordiant MiDAS a PATS 22

Cliciwch yma i ddychwelyd i'r Tabl Cynnwys

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth ar gyfer datblygu'r sector cludiant cymunedol a gwirfoddol yng Ngwynedd, gan sicrhau y bydd y mentrau a'r adnoddau ar gyfer datblygu cludiant cymunedol yn darparu'r gwasanaeth gorau posib i bobl Gwynedd.

1.2 Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod cludiant statudol, ac mae ganddo ddyletswydd statudol i fod yn arweinydd strategol wrth gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau cludiant yn yr ardal ddaearyddol. Er nad yw'r Cyngor yn gweithredu unrhyw gynlluniau cludiant cymunedol yn uniongyrchol, mae'n gweithio mewn partneriaeth â darparwyr a buddiolwyr eraill i fwyafu budd y rhwydweithiau cludiant cymunedol presennol yng Ngwynedd. Mae'r strategaeth hon yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ac ehangu'r gwasanaethau a ddarperir gan y sector, a sut byddwn yn helpu i gyflwyno ymagwedd gydlynus ac integredig at ddatblygu'r rhwydwaith cludiant cymunedol ar draws yr ardal.

2 Cludiant Cymunedol

2.1 Mae cludiant cymunedol yn ymateb i anghenion cludiant unigolion a grwpiau nad ydynt yn cael eu bodloni gan foddau cludiant confensiynol eraill. At ddiben y strategaeth hon, fe'i diffinnir fel a ganlyn:

"ffyrdd o leddfu neu fodloni'r anghenion cludiant lleol y byddant, cyn belled â'u bod heb eu bodloni, yn amharu'n sylweddol ar ansawdd bywyd pobl sydd ag ychydig iawn o fynediad, neu ddim mynediad o gwbl, i gludiant confensiynol."

2.2 Gall cludiant cymunedol wasanaethu'r cyhoedd yn gyffredinol neu grŵp penodol o fewn y gymuned. Gall gweithredwyr weithio'n gyfan gwbl gyda gwirfoddolwyr neu gyda chyfuniad, gan gynnwys staff a delir, a gallant amrywio o ran maint o un neu ddau gerbyd hyd at hanner cant neu'n fwy. Mae nifer mawr o weithredwyr amrywiol, gan gynnwys:

- Gweithredwyr ceir cymunedol – lle mae gwirfoddolwyr yn defnyddio'u ceir eu hunain i ddarparu cludiant, i'r ysbyty neu apwyntiadau gofal iechyd yn aml
- Bysiau cymunedol – lle gweithredir gwasanaethau bws lleol a amserlennir mewn ardaloedd gwledig gan ddefnyddio bysiau mini (cerbydau â mwy nag 8 ond llai na 17 o deithwyr) wedi'u gyrru'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr
- Cynlluniau teithio grŵp – lle gweithredir bysiau mini naill ai gan grŵp lleol ar gyfer ei aelodau neu gan gorff "mantell", lle codir tâl ar grwpiau eraill i ddefnyddio'r cerbyd i gludo eu haelodau.
- Mentrau "Wheels to Work" – lle benthycir sgwteri i bobl ifanc er mwyn iddynt hygyrchu sgiliau a chyflogaeth.

- Cynlluniau Galw'r Gyrrwr – mae'r rhain yn darparu cludiant o ddrws i ddrws ar gyfer pobl hŷn ac anabl
- Cynlluniau Tocynnau Tacsi – lle rhoddir tocynnau i bobl hŷn ac anabl i'w gosod yn erbyn y tâl a godir gan ddarparwyr gwasanaethau masnachol.

2.4 Ar hyn o bryd, gweithredir cludiant cymunedol yng Ngwynedd gan y gweithredwyr canlynol:

- **O Ddrws i Ddrws** wedi'i leoli yn Nefyn. Gyrrir dau "MPV" (cerbyd aml-berson gyda llai na 9 o seddau i deithwyr) gan yrwyr a delir, ac mae'r cynllun hefyd yn gweithredu cynllun ceir cymunedol.
- **Clwb Teithio Dwyfor (C.Y.M.R.O.D.)** sy'n gweithredu o Bwllheli. Mae gan y grŵp nifer bach o fysiau mini a cherbydau MPV sydd wedi'u gyrru gan staff a delir, ac maent yn cludo pobl ag anableddau a'u gofalwyr i'r gwaith, i siopa, i weithgareddau cymdeithasol ac ar deithiau sy'n ymwneud ag iechyd.
- Mae **Freewheelers** yn gweithredu bws mini unigol, a yrrir gan wirfoddolwyr, o Dywyn. Cyfyngir y defnydd o'r cynllun hwn i 45 o bobl ag anableddau
- Mae'r **Groes Goch** yn gweithredu nifer o fysiau mini, cerbydau MPV, cynllun ceir gwirfoddol a gwasanaeth cynorthwyo teithwyr gwirfoddol. Mae rhan fwyaf y ceir, sydd dan berchnogaeth breifat, wedi'u lleoli yng Nghaernarfon a'u gyrru gan staff a delir. Mae cerbyd MPV wedi'i leoli yn Nolgellau.
- Mae **Cynllun Ceir Tywyn** yn gynllun ceir cymunedol bach a weinyddir gan Age Concern.
- Mae **Prifysgol Bangor ac Undeb y Myfyrwyr** yn gweithredu nifer o gerbydau nad ydynt yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Er eu bod yn gyfyngedig yn bennaf i gefnogi gweithgareddau myfyrwyr, mae nifer bach o fysiau mini ar gael, nad ydynt yn hygyrch i gadeiriau olwyn, i'w defnyddio gan grwpiau cymunedol, megis grwpiau ieuenctid a theithiau i'r henoed.

2.5 Mae strwythur cludiant cymunedol presennol Gwynedd yn wynebu nifer o heriau. Mae anghydraddoldeb daearyddol sylweddol o ran y ddarpariaeth ar draws y sir, gydag adnoddau wedi'u canolbwyntio ar Benrhyn Llŷn, ar hyd yr ardaloedd arfordirol ac ar lannau'r Fenai, ond mae'r gwasanaeth yn llawer llai cynhwysfawr mewn ardaloedd eraill. Yn ogystal â hyn, nid oes cronfa ddata ganolog o weithredwyr ac mae diffyg cydweithredu cyffredinol rhwng gweithredwyr CC, gan olygu bod cyfleoedd i fwyafu effeithiolrwydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu colli. Gallai integreiddio gwasanaethau'n well helpu i leihau cost uchel 'milltiroedd marw'[1] sy'n faich sylweddol i bob gweithredwr CC mewn ardal wledig.

2.6 Nid oes tir cyffredin mewn nifer o faterion gweithredol, megis strwythurau taliadau neu ofynion cymhwyster. Mewn rhannau o'r sir sydd wedi'u gwasanaethu'n dda, mae'n bosib i gwsmer ddewis rhwng dau ddarparwr, er

[1] Milltiroedd marw – y pellter mae'n rhaid i gerbyd deithio o'i leoliad cartref i fan codi'r teithiwr cyntaf a man gollwng y teithiwr olaf.

bod y taliadau a godir gan un ohonynt bron yn ddwywaith yr hyn a godir gan y llall.

2.7 Mae dyrannu adnoddau'r cyngor i gludiant cymunedol yn broblem fawr, ac mae llawer o weithredwyr yn dioddef o ddiffyg sefydlogrwydd cyllido tymor hir, sy'n gwanhau cynaladwyedd. Mae angen gwella cydlynu ar draws adrannau'r cyngor, a datblygu safonau gwasanaeth clir, trwyadl a mesuradwy i hyrwyddo gwelliant parhaus. Ar ben hynny, gallai'r sector elwa ar fuddsoddiad cydlynus gan amrywiaeth o sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau iechyd, am fod llawer o deithiau'n gysylltiedig ag iechyd.

2.8 Mae angen gwella gweithdrefnau rhannu gwybodaeth a hyrwyddo, am fod ymwybyddiaeth o wasanaethau cludiant cymunedol presennol ymhlith rhai cymunedau'n wael. Crëir cylch dieflig, lle nad yw pobl gymwys yn defnyddio'r gwasanaethau oherwydd nad ydynt yn ymwybodol ohonynt, ac nid yw'r gweithredwyr yn ennill digon o refeniw ychwanegol i farchnata eu gwasanaethau oherwydd y baich ar eu hadnoddau eisoes. Ni ddarperir cerbydau presennol o fewn y sir dan berchnogaeth unigolion neu'r cyngor i'r sector ar amserau priodol.

3 Y Cyd-destun Polisi Lleol

3.1 Mae Gwynedd yn wynebu heriau penodol wrth ddarparu rhwydwaith cludiant teithwyr effeithlon ac effeithiol ar gyfer ei holl drigolion ar draws y sir. Yn ôl cyfrifiad 2001, mae ganddi boblogaeth o 116,893, gyda llai na 0.5 person yr hectar ar gyfartaledd gan olygu mai Gwynedd yw'r drydedd ardal awdurdod lleol leiaf o ran poblogaeth yng Nghymru ar ôl Ceredigion a Phowys.

3.2 Cydnabyddir bod anghenion teithio'r rhan fwyaf o drigolion Gwynedd a'i hymwelwyr wedi'u bodloni gan:

- Ceir a cherbydau preifat eraill[2]
- Cludiant cyhoeddus, gan gynnwys bysiau a threnau
- Tacsis a cherbydau hurio preifat
- Cludiant iechyd a drefnir gan awdurdodau'r GIG
- Cludiant contract, gan gynnwys cludiant i'r ysgol a chludiant gwasanaethau cymdeithasol
- Cerdded a beicio

3.3 Serch hynny, cynhyrchir tystiolaeth gynradd ac anecdotaidd yn gyson sy'n nodi bod swm sylweddol o bobl wedi'u heithrio o ddefnyddio'r dulliau cludiant hyn. Ymddengys bod ansawdd bywyd rhannau o boblogaeth Gwynedd yn dioddef oherwydd anawsterau wrth hygyrchu amrywiaeth o wasanaethau gofal a gwasanaethau cyhoeddus eraill, ynghyd â chyfleoedd cymdeithasol a chyflogaeth.

3.4 Casglwyd y dystiolaeth hon mewn nifer o gynlluniau a strategaethau a gynhyrchwyd ar draws Cyngor Gwynedd. Dangosir y rhain yn Nhabl 1 isod:

[2] Nid yw 24% o aelwydydd Gwynedd yn berchen ar gar (Cyfrifiad 2001)

Tabl 1: Tystiolaeth o Eithrio o Gludiant

Strategaeth	Materion	Argymhellion Perthnasol
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd 2005-08 "Gwell Iechyd–Gwell Gwynedd" Cynllun Gweithredol 2006-07	Mae'r ddogfen hon yn nodi'r anawsterau a wynebir gan: ▪ bobl hŷn ▪ plant a phobl ifanc ▪ pobl sy'n dioddef salwch tymor hir ac anafiadau ▪ grwpiau incwm isel	▪ Cryfhau cydlyniad y ddarpariaeth gludiant ▪ Darparu cludiant fforddiadwy i bobl ifanc
Gwynedd yn Edrych i'r Dyfodol: "Ffordd Newydd o Weithio" Strategaeth Gymunedol Gwynedd ar y Cyd 2006	▪ Hygyrchedd a chyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion	▪ Datblygu ffyrdd newydd a blaengar o ddarparu mynediad lleol i wasanaethau cyhoeddus o safon ar gyfer poblogaeth wasgaredig
Prosiect "Cynnwys" ar gynhwysiad cymdeithasol yng Ngwynedd ac Ynys Môn, 2004-07	▪ Mynediad pobl anabl i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig de Gwynedd.	▪ Gwella mynediad i gludiant a chydlynu'r ddarpariaeth gludiant ▪ Sicrhau bod pobl ar draws yr ardal yn cael mynediad i gludiant cymunedol fel dewis arall i gludiant cyhoeddus/preifat
Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Cyngor Gwynedd 2006-09	▪ Mae angen sicrhau bod gwasanaethau cludiant mor hyblyg a hygyrch â phosib, gan gynnwys pobl anabl wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau'r Cyngor	▪ Mabwysiadu ymagwedd strategol at asesu anghenion cludiant cymunedol yng Ngwynedd ▪ Datblygu gweithredwyr CC i lenwi bylchau ac ategu gwasanaethau lleol presennol
Pobl Ifanc a Chludiant Cyhoeddus – Adroddiad Ymgynghorol Rhagfyr 2006	▪ Mae nifer mawr o bobl ifanc yn wynebu anhawster wrth geisio defnyddio gwasanaethau bysiau ▪ Mae gweithredwyr CC presennol y tueddu i weithio gyda phobl hŷn a/neu anabl	▪ Bydd y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Pobl Ifanc i sicrhau bod cynlluniau cludiant cymunedol yn cael eu datblygu i bobl ifanc
Menter Datblygu Cefnogaeth i Bobl Hŷn Gogledd Cymru Wledig 2004-06	▪ Problemau o ran mynediad i wasanaethau a gwybodaeth am gludiant ▪ Mae'r lledaeniad CC presennol yn gyfyngedig	▪ Arian i CC i ddatblygu gwasanaethau presennol ▪ Annog mwy o yrwyr gwirfoddol sy'n fodlon gweithio gyda'r hwyr

"Byw Bywyd i'r Eithaf" Strategaeth ar gyfer Heneiddio'n Dda yng Ngwynedd Ebrill 2006	▪ Natur wledig y sir ac amrywiad yn lefelau cludiant cyhoeddus oherwydd hynny ▪ Hygyrchedd y ddarpariaeth gludiant bresennol ▪ Defnyddio CC i hygyrchu gwasanaethau iechyd ▪ Materion diogelwch o ran defnyddio sgwteri ar y ffyrdd	▪ Datblygu cynlluniau CC mewn partneriaeth â chludiant cyhoeddus er mwyn datblygu gwasanaeth integredig ar draws Gwynedd
"CC yng Ngwynedd –Gwella Darpariaeth Gludiant i Bobl Hŷn" Adroddiad Interim Mehefin 2006	▪ Lefelau uchel o bobl hŷn (mwy na 30% mewn rhai wardiau) ▪ Mae cludiant cymunedol yn wasgarog a heb ei gyllido'n ddigonol ▪ Mae nifer bach o bobl dan anfantais sylweddol	▪ Cynyddu nifer yr ardaloedd y darperir ar eu cyfer ▪ Adnoddau ▪ Safonau ar y cyd etc

4 Cyd-destun polisi'r DU, Cymru a'r rhanbarth

4.1 Nododd y ddogfen ymgynghori "Rhoi Teithwyr yn Gyntaf" (Rhagfyr 2006) a'r Ddeddf Trafnidiaeth Leol ddrafft ddilynol a gyhoeddwyd gan yr Adran Cludiant ym mis Mai 2007 gynigion ar gyfer sail statudol i fframwaith cenedlaethol wedi'i foderneiddio ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yng Nghymru, bydd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried opsiynau posib ac yn datblygu cynigion ar gyfer symud cyfres o fesurau ymlaen a fydd yn gwella gwasanaethau bysiau lleol, gan gynnwys cefnogi datblygiad pellach y sector cludiant cymunedol drwy ddileu cyfyngiadau diangen a rhesymoli prosesau.

4.2 Mae Cynllun Gofodol Cymru (2004) yn pennu agenda tymor hir ar gyfer integreiddio'r buddsoddiad a'r adnoddau y mae eu hangen i gynnal dyfodol cymunedau mawr a bach ar draws Cymru. Mae'n ystyried yr hyn a allai ddigwydd a'r hyn a ddylai ddigwydd, a ble. Mae pob un o'i bum thema yn rhannol berthnasol i'r strategaeth hon, yn enwedig "Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy" a "Chyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy", sy'n ceisio ymdrin ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau a gwella cysylltiadau rhwng aneddiadau a'u cyffiniau a'u canolfannau rhanbarthol.

4.3 Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (STC) ddrafft 2006 yn cefnogi deilliannau a gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru. Mae deilliannau cymdeithasol y STC ddrafft yn arbennig o berthnasol i'r strategaeth hon am eu bod yn canolbwyntio ar wella mynediad i ofal iechyd, addysg a dysgu gydol oes a chyfleusterau siopa a hamdden, ac ar annog ffyrdd iach o fyw.

Mae'r rhain wedi'u hategu gan set o negeseuon allweddol a ymgorfforwyd yn y strategaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nodi ardaloedd ble mae hygyrchedd yn wael er mwyn i welliannau gael eu targedu at y rheiny y mae arnynt eu hangen fwyaf
- Gwella cydlynu a chynllunio cludiant ar draws pob disgyblaeth
- Gwella marchnata a theclynnau cynlluniau teithio
- Gwella cysylltiadau rhwng y dulliau cludiant amrywiol

4.4 Yn gysylltiedig â hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud yn ofynnol i'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol ddatblygu cynlluniau rhanbarthol tymor hir ar gyfer gwasanaethau cludiant cyhoeddus strategol ar draws eu hardaloedd. Mae Gwynedd yn cyfrannu at ddau gonsortiwm - TAITH yn rhanbarth gogledd Cymru a TraCC yn y Canolbarth. Mae'r ddau Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn anelu at ymdrin â phroblemau hygyrchedd a chynhwysiad cymdeithasol, ymhlith eraill, sy'n effeithio ar drigolion lleol.

4.5 Mae CTRh TAITH wedi nodi saith nod, y mae un ohonynt yn arbennig o berthnasol i'r strategaeth hon, sef "Optimeiddio mynediad i gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer yr holl gymunedau amrywiol ar draws gogledd Cymru". Cydnabyddir natur drawsffiniol trafnidiaeth yn glir yn y CTR, a dylid estyn hyn i gludiant cymunedol hefyd.

4.6 Yn yr un modd, mae gan gynllun TraCC naw nod, y mae gan y canlynol gysylltiadau clir â chludiant cymunedol:

- Gwella mynediad pob sector o gymdeithas i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau (Nod 4)
- Gwella ansawdd ac integreiddiad y system cludiant cyhoeddus, gan gynnwys rôl cludiant cymunedol (Nod 5)
- Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol i benderfyniadau ynghylch defnyddio tir (Nod 8)

5 Strategaeth ar gyfer y Dyfodol

5.1 Mae'r adran hon yn ystyried yr ymagwedd y bydd angen i Gyngor Gwynedd ei mabwysiadu i ddatblygu gwasanaethau cludiant cymunedol dros y 5 mlynedd nesaf, i sicrhau bod gan yr holl drigolion fynediad i gludiant sy'n briodol ar gyfer eu hanghenion. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda gweithredwyr presennol a rhanddeiliaid allweddol i wella a datblygu cyflwyniad gwasanaethau ac annog rhoi gwasanaethau newydd ar waith lle y bo'n briodol. Ein nod trosgynnol yw

"datblygu a hyrwyddo rhwydwaith cludiant gwirfoddol a chymunedol egnïol a blaengar yn cynnig opsiynau hygyrchedd sy'n ymateb i anghenion lleol, yn gwella cynhwysiad cymdeithasol ac yn cynnig gwerth gorau."

5.2 Bydd ein hymagwedd yn cael ei harwain gan set o chwe egwyddor strategol drosgynnol. Datblygwyd yr egwyddorion hyn yn dilyn dadansoddiad o'r sefyllfa cludiant cymunedol bresennol, adolygiad o werth gorau mewn cludiant cymunedol ac o ganlyniad i'r canfyddiadau ymchwil a gafwyd wrth ymgynghori ar ddatblygu'r Strategaeth.

5.3 Amlinellir Egwyddorion Strategol Cludiant Cymunedol Cyngor Gwynedd yn y tabl canlynol:

Tabl 2: Egwyddorion Strategol Trosgynnol

ES1	**Byddwn yn sicrhau bod rôl cludiant cymunedol a Chludiant sy'n Ymateb i'r Galw (CYG) yn cael ei chydnabod yn glir fel elfen gyfiawn o'n cynllun cludiant integredig ar gyfer Gwynedd a'i bod yn ategu gwasanaethau cludiant teithwyr confensiynol.**
ES2	Byddwn yn rhannu ac yn annog mabwysiadu arfer da drwy fforwm cludiant cymunedol a gwirfoddol wedi'i adfywio, ac yn darparu adnoddau ar ffurf staff i helpu i gydlynu cludiant cymunedol yng Ngwynedd.
ES3	Byddwn yn gweithio tuag at ddarparu sail gynaliadwy ar gyfer datblygu'r sector yn y dyfodol drwy gynllun cyllido tymor hir, wedi'i ategu gan gytundebau lefel gwasanaeth.
ES4	Byddwn yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth cludiant cymunedol yng Ngwynedd yn cyfateb i anghenion ein cymunedau er mwyn sicrhau cynhwysiad cymdeithasol i bawb
ES5	Byddwn yn datblygu partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y sector masnachol, a byddwn yn sicrhau bod ymgynghori'n mynd yn rhan annatod o'r broses ddatblygu.
ES6	Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i sicrhau ansawdd a gwerth am arian.

6 Camau Strategol

6.1 Mae'r adran hon yn nodi'r camau strategol y byddai angen i Gyngor Gwynedd eu rhoi ar waith yn y dyfodol i gyflwyno gwasanaethau newydd a gwell, gan weithio mewn partneriaeth ar draws meysydd gwasanaeth gyda'r sector cludiant gwirfoddol a chymunedol a gyda chyllidwyr. Mae nifer o gyfleoedd sy'n haeddu ymchwilio manylach, gan gynnwys cydweithio agosach gyda'r sector iechyd wrth drefnu cludiant ar gyfer gwasanaethau i gleifion nad ydynt yn rhai brys a'r gwasanaethau cymdeithasol, gwell defnydd o weithredwyr CYG mewn cwmnïau tacsis, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell iawn, ac annog gweithredwyr cludiant grŵp mwy i sefydlu canghennu masnachu a gwneud ceisiadau am waith contract i gynhyrchu incwm ychwanegol.

6.2 Mae'r camau strategol wedi'u rhannu'n chwe maes y mae pob un ohonynt yn rhestru amcanion wedi'u rhifo, ac wedi'u dilyn gan awgrymiadau ynghylch camau gweithredu a chanlyniadau posib. Bydd swyddog â chyfrifoldeb dros gludiant cymunedol yn cael y dasg o ddatblygu'r rhain ymhellach mewn cynllun gweithredu manwl a mesuradwy dros dair blynedd.

Amcan 1 Cydlynu ac Integreiddio

CI1 Annog y defnydd o gludiant cymunedol ar draws adrannau lle mae'n cael ei nodi fel y ffordd orau o ddatrys heriau cludiant a bodloni anghenion mynediad a nodwyd mewn strategaethau ehangach y cyngor.

Byddwn yn gweithio i sicrhau cydlyniad traws adrannol o fewn yr awdurdod o ran adnoddau ac integreiddio polisïau.

Byddwn yn ystyried rôl y ddarpariaeth cludiant cymunedol bresennol o fewn cynllun cludiant integredig i Wynedd a byddwn yn nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer y sector lle nodwyd bylchau yn y rhwydwaith.

Byddwn yn cymryd rôl arweiniol wrth hyrwyddo cludiant cymunedol fel dewis pan fydd gwasanaethau eraill y cyngor, yn enwedig y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, datblygu economaidd ac adfywio, a hamdden yn ceisio goresgyn problemau mynediad fel rhan o gyflawni'u hamcanion adrannol.

CI2 Gwella integreiddiad gwasanaethau cludiant cymunedol gyda gwasanaethau bws a thrên eraill i sicrhau gwell effeithlonrwydd yn y rhwydwaith cludiant teithwyr a rhoi mynediad i ddefnyddwyr i well amrywiaeth o wasanaethau a chyrchfannau.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cludiant cymunedol yn cael ei integreiddio i'r fforymau perthnasol, lle bydd cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, gweithredwyr cludiant masnachol, y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ac eraill â budd dilys yn cydweithio i ddatblygu cludiant integredig effeithiol.

Byddwn yn rhoi system adolygu a chynnal anghenion cludiant rheolaidd ar waith ar draws y sir, gan fwydo'r canlyniadau i'r broses cynllunio cludiant ynghyd ag unrhyw adolygiadau o'r strategaeth hon yn y dyfodol.

Byddwn yn annog ac yn cyfrannu at ddatblygu strategaethau cludiant cymunedol rhanbarthol trawsffiniol drwy gymryd rhan yng Nghonsortia Cludiant Rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru, TAITH a TraCC ac yn gwneud pob ymdrech i ddylanwadu ar broses cynllunio trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Amcan 2 Partneriaeth

Mae perthynas Cyngor Gwynedd ag awdurdodau lleol cyfagos Ynys Môn, Conwy, Powys a Cheredigion, y sector cludiant gwirfoddol a chymunedol, y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol lleol (Mantell Gwynedd) a sefydliadau eraill yn hollbwysig o ran cyflwyno cynlluniau a gydlynir yn iawn ar lefel leol. Trwy adnodd staff un-pwrpas, rydym yn barod i arwain, cydlynu neu gefnogi amcanion a gweithgareddau'r galluogwyr hyn, er mwyn datblygu ymagwedd ragweithiol a chydfuddiannol sy'n seiliedig ar bartneriaeth at gynllunio a darparu cludiant cymunedol yn yr ardal.

P1 Datblygu partneriaeth ystyrlon wrth gynllunio a darparu cludiant cymunedol.

Byddwn yn archwilio'r cyfle i sefydlu Fforwm Cludiant Cymunedol a gwirfoddol i Wynedd, gydag aelodaeth o weithredwyr, swyddogion meysydd gwasanaeth Cyngor Gwynedd, Mantell Gwynedd, y sector iechyd ac eraill.

Byddwn yn ymgynghori ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys yr henoed, pobl ifanc ac anabl, i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried a bod yr anghenion hyn yn cael eu cyfathrebu'n glir i gynllunwyr a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau.

Byddwn yn nodi cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau cludiant cymunedol presennol e.e. yn y Bala, a dod â chyfranogwyr a phartneriaid allweddol ynghyd i drafod opsiynau gweithredu posib.

Amcan 3 Cyfleoedd Datblygu

Gallai rhai cyfleoedd datblygu gael eu symud ymlaen gan weithredwyr cludiant cymunedol presennol sydd am ehangu'u gwasanaethau, a gallai fod rhaid datblygu eraill yn rhagweithiol o'r cychwyn cyntaf.

CD1 Datblygu ac annog arfer gorau mewn safonau gweithredu a thechnegol

Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr i ddatblygu safonau cyffredin mewn meysydd megis iechyd a diogelwch, cymhwyster, strwythurau taliadau, gofal cwsmeriaid, systemau archebu a mynediad i'r anabl, a'u rhoi ar waith.

CD2 Ymchwilio i gynlluniau cludiant cymunedol blaengar a'u cyflwyno ble y byddant yn bodloni'r angen yn fwyaf effeithiol

Byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer adeiladu gallu gweithredwyr a chynlluniau cludiant cymunedol presennol er mwyn gwella ffyrdd o weithio a chynyddu'u cynaladwyedd, ac ar gyfer ymchwilio i bosibiliadau o ran cynlluniau newydd.

CD3 Byddwn yn ymchwilio i system frocera ar draws y sir a'i rhoi ar waith i sicrhau bod cerbydau a danddefnyddir yn cael eu darparu ar gyfer y sector cludiant cymunedol a gwirfoddol

Byddwn yn gweithio gyda gweithredwyr cludiant teithwyr ym mhob sector i adolygu'r rhwystrau sy'n atal y defnydd o gerbydau sbâr gan weithredwyr cludiant cymunedol.

Amcan 4 Hyfforddiant

Mae sefydliadau cludiant cymunedol yn amrywio'n sylweddol, o'r rheiny sydd wedi'u staffio'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr i'r rheiny sy'n cyflogi nifer o staff a delir gydag amrywiaeth o gyfrifoldebau. Mae'r sector cludiant cymunedol yn wynebu anawsterau parhaus wrth recriwtio gwirfoddolwyr i bob lefel yn y

sefydliad ac wrth ddod o hyd i arian ar gyfer hyfforddiant, ac mae angen sicrhau bod yr holl weithredwyr cludiant cymunedol a'u staff yn cyflawni trothwyon safonau cyffredin. Bydd y rheiny sydd wedi derbyn hyfforddiant hefyd yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy, yn gwella datblygiad personol ac yn cynyddu'u potensial i gael eu cyflogi o fewn yr economi leol yn y dyfodol.

H1 Sicrhau bod safon hyfforddi ofynnol yn cael ei chyflwyno ar gyfer unrhyw sefydliad mae'r Cyngor yn ei gefnogi.

Byddwn yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant allanol a chyda gweithredwyr cludiant cymunedol i gyflawni safonau hyfforddiant cludiant cymunedol cenedlaethol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CCC) i sicrhau isadeiledd digonol i gyflwyno'r hyfforddiant canlynol: Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Bysiau Mini (MiDAS) a'r Cynllun Hyfforddi Cynorthwywyr Teithwyr (PATS). (Manylion yn atodiad 6)

H2 Cydweithio gydag asiantaethau eraill i ryddhau cyllid cyhoeddus i gefnogi hyfforddiant mewn rhaglenni hyfforddiant achredig ar gyfer y sector.

Byddwn yn gweithio gyda'r gweithredwyr cludiant cymunedol i nodi cyfleoedd i gyllido datblygu sgiliau a hyfforddiant i staff/gwirfoddolwyr o fewn y sector.

H3 Cydweithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â chyflwyno'r strategaeth.

Byddwn yn cydweithio gyda swyddogion y cyngor, cynghorwyr a rhanddeiliaid allanol allweddol i gynnwys ymwybyddiaeth o gludiant cymunedol a materion cynhwysiad cymdeithasol cysylltiedig fel rhan o raglen datblygiad personol.

Amcan 5 Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Y ffactor allweddol wrth wneud dewis ynghylch taith yw cael gwybodaeth ynghylch argaeledd gwasanaethau a medru hygyrchu gwybodaeth mewn fformat ffafriedig, boed dros y ffôn, ar y rhyngrwyd neu ar bapur. Mae hyn yn hollbwysig o ran goresgyn rhwystrau a achosir gan wybodaeth nad yw'n hygyrch.

MC1 Cynnal a hyrwyddo gwybodaeth ddiweddar ynghylch darpariaeth cludiant cymunedol yng Ngwynedd

Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch darpariaeth cludiant cymunedol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd.

Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei darparu mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys datblygu gwefan i sicrhau y gall pawb hygyrchu'r wybodaeth hon, beth bynnag yw eu hanghenion.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn marchnata cludiant cymunedol i'r un safonau ac arfer â gwasanaethau cludiant teithwyr eraill yn y sir, a byddwn yn datblygu system archebu ar y we.

Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cludiant cymunedol, lle bo'n briodol, i gynorthwyo rhannu arfer da wrth ddatblygu a thargedu deunydd marchnata.

Amcan 6 Adnoddau

A1 Nodi swyddog â chyfrifoldeb dros gydlynu cludiant cymunedol yng Ngwynedd.

Byddwn naill ai'n ymgorffori'r rôl hon mewn swydd bresennol drwy ailddyrannu amser staff neu, os bydd adnoddau'n caniatáu, byddwn yn penodi swyddog un pwrpas. Bydd deiliad y swydd yn cyflawni rôl ragweithiol, gan ymwneud â chyllido, marchnata, ymchwilio ac adeiladu gallu.

A2 Sicrhau gwerth gorau ac effeithlonrwydd wrth ddyrannu arian ac adnoddau eraill y Cyngor i gludiant cymunedol.

Byddwn yn annog pawb sy'n ymwneud â rhoi'r strategaeth hon ar waith i ystyried gwerth gorau'n ofalus wrth lunio pob argymhelliad a sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at yr ardaloedd mae arnynt eu hangen fwyaf.

Byddwn yn datblygu rhaglen gefnogaeth mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu targedu at y rheiny mae arnynt eu hangen fwyaf.

A3 Datblygu proses sengl ar draws y Cyngor ar gyfer penderfynu ar sut bydd adnoddau cludiant cymunedol yn cael eu dyrannu yn y dyfodol a monitro sut mae'n cael ei defnyddio.

Byddwn yn archwilio arfer gorau cenedlaethol a rhanbarthol i ganfod sut mae awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu a monitro adnoddau a ddyrennir i'r sector CC.

7 Deilliannau Posib

Byddwn yn monitro rhoi'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â phob un o'r chwe amcan uchod ar waith drwy nodi a chytuno ar set o ddeilliannau meintiol ac ansoddol. Rhoddir manylion y deilliannau posib yn Nhabl 3 isod:

Tabl 3: Rhestr o Ddeilliannau Ansoddol

Amcan 1	Cydlynu ac Integreiddio
Bydd sylfaen wybodaeth holl feysydd gwasanaeth perthnasol yr Awdurdod Lleol a	

rhanddeiliaid allweddol eraill yn cael ei hestyn i gynnwys ymwybyddiaeth o weithgareddau a chylch gwaith cludiant cymunedol, a bydd cludiant cymunedol yn cael ei hyrwyddo fel dewis ymarferol o fewn y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol/arfaethedig.

Bydd cynlluniau gwasanaeth a chyllidebau cydlynus yn cael eu rhoi ar waith ar draws ardaloedd Cyngor Gwynedd a byddant yn canolbwyntio ar ddeilliannau.

Bydd integreiddio cludiant cymunedol i'r rhwydwaith cludiant ehangach yn cael ei hwyluso, gan hyrwyddo gweithrediadau blaengar a mentrau gweithio ar y cyd rhwng gweithredwyr masnachol a gweithredwyr sector gwirfoddol, gwella gallu a gweithrediad y rhwydwaith cludiant presennol a sicrhau bod cydbwysedd buddion yn cael ei gynnal.

Amcan 2 Partneriaeth

Bydd partneriaid a gweithredwyr allweddol yn cael eu grymuso drwy Fforwm Cludiant Cyngor Gwynedd i gymryd rhan yn y broses cynllunio a gwneud penderfyniadau. Bydd rhoi'r strategaeth ar waith yn cael ei fonitro, bydd meysydd penodol i'w gwella'n cael eu nodi a bydd atebion yn cael eu cytuno i sicrhau datblygiad parhaus cludiant cymunedol o fewn y Sir.

Bydd gwybodaeth y cael ei chyfnewid rhwng Fforwm CC Gwynedd a fforymau cludiant perthnasol eraill, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael yr wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus a datblygu darpariaeth cludiant cymunedol yn unol â strategaethau presennol a datblygol a'r defnydd gorau o adnoddau.

Amcan 3 Cyfleoedd Datblygu

Bydd cysondeb o ran ansawdd darpariaeth y gwasanaeth, tryloywder o ran cymhwyster, meini prawf archebu a thalu a gwell amrywiaeth o wasanaethau a mynediad iddynt yn cael eu cyflawni drwy fabwysiadu arfer gorau

Bydd gallu gweithredwyr newydd a phresennol yn cael ei ddatblygu i gynyddu argaeledd gwasanaethau cludiant cymunedol i ganran uwch o drigolion Gwynedd. Bydd twf cynaliadwy'n cael ei gyflawni gyda llai o ddibyniaeth ar ffrydiau cyllido allanol.

Bydd adnoddau presennol yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon drwy frocera ar draws Gwynedd. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys ardal ddaearyddol ehangach, bydd darbodion maint yn cael eu cyflawni a bydd costau'n cael eu hymyleiddio.

Amcan 4 Hyfforddiant

Bydd rhanddeiliaid yn cael gwell dealltwriaeth o weithgareddau a materion cludiant cymunedol.

Bydd ymddiriedolwyr, aelodau byrddau a staff gweithredwyr cludiant cymunedol yn datblygu sgiliau a galluoedd newydd a gwell, gan gynorthwyo wrth werthuso a gwella gwasanaethau

Bydd gallu gweithredol sefydliadau'n cael ei gynyddu, gan leihau risgiau ac felly, lleihau dibyniaeth ar gymorth ac arbenigedd allanol.

Bydd safonau gofynnol yn cael eu cyflawni a bydd boddhad defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynyddu drwy hyfforddiant achrededig i staff craidd, gyrwyr a delir a gwirfoddolwyr.

Amcan 5 Marchnata a Chyhoeddusrwydd

Bydd darparu marchnata, cyhoeddusrwydd a brand ansawdd uchel yn cynyddu'r canfyddiad o gludiant cymunedol fel dewis cludiant ymarferol a phroffesiynol lle nad

oes unrhyw gludiant cyhoeddus ar gael.
Bydd holl drigolion Gwynedd yn cael mynediad cyfartal i wybodaeth, gan ganiatáu cynllunio teithio priodol a chynyddu hyder defnyddwyr gwasanaeth.
Bydd integreiddio a hyrwyddo cynlluniau ehangach yn cael ei gyflawni drwy fentrau megis Traveline Cymru a phrosiect A2B arfaethedig CTA Cymru.
Amcan 6 Adnoddau
Bydd yr ardaloedd â'r anghenion mwyaf yn derbyn adnoddau wedi'u targedu a bydd gweithgareddau'r gwasanaeth yn cael eu hestyn ar draws Gwynedd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yn wael neu mae angen darpariaeth gludiant fwy arbenigol ar ganran uchel o'r boblogaeth.
Bydd buddsoddiad yn cael ei gynllunio ar sail tymor hwy, gyda gwell tryloywder o ran dyrannu yn erbyn meini prawf a ddiffinnir a fydd yn mesur buddion cymdeithasol ac economaidd, perfformiad a gwerth.
Bydd adnoddau presennol yn cael eu defnyddio'n well. Bydd mwy o ardaloedd yn cael eu cynnwys drwy ddarbodion maint a chyn lleied o wariant cyfalaf â phosib.

8 Rhoi ar Waith, Monitro ac Adolygu

8.1 Bydd rhoi'r Strategaeth Cludiant Cymunedol hon ar waith yn dechrau cynhyrchu manteision sylweddol ar gyfer pobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithaso., Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer datblygu'r strategaeth, ei monitro a'i hadolygu.

Rhoi ar Waith

8.2 Bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi rôl Cydlynydd Cludiant Cymunedol Gwynedd i "hyrwyddo" a symbylu gweithrediad y Strategaeth. Gallai hyn ddigwydd drwy ailddyrannu amser presennol staff neu recriwtio swyddog newydd os bydd adnoddu'n caniatáu hynny. Mae'r fenter hon yn cydnabod y gellir cyflawni prif-ffrydio cludiant cymunedol yn fwy effeithiol pan fydd ffynhonnell cyngor a chymorth un pwrpas a pharod ar gyfer pobl sy'n datblygu polisïau a rhaglenni – er mwyn eu helpu i fireinio a chynnwys materion nad ydynt, o bosib, yn ymwybodol ohonynt.

8.3 Rôl allweddol y swyddog fyddai "hyrwyddo" newid, annog prif-ffrydio a dehongli gofynion y grŵp cleientiaid yn yr arena polisi cludiant ehangach. Byddai ef neu hi'n datblygu cynllun gweithredu i roi'r strategaeth hon ar waith, a byddai hefyd yn tracio datblygiadau polisi a mentrau arfer da, ac wrth wneud hynny, byddai'n cynnal cysylltiadau agos â chydweithwyr ar draws Cymru.

8.4 Gellir rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith dim ond os bydd polisïau a rhaglenni eraill o fewn Cyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill yn cydweithio gyda'r Strategaeth CC. Gan hynny, bydd Cydlynydd Cludiant Cymunedol Gwynedd yn sicrhau bod y rheiny sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni cludiant eraill yn ceisio sicrhau y bydd amcanion y Strategaeth CC yn cael eu hystyried yn eu meysydd gwaith hwy.

Y Broses Fonitro

8.5 Bydd Gwasanaeth Cynllunio a Chludiant Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am fonitro cynnydd ar y Strategaeth CC. Bydd Cydlynydd Cludiant Cymunedol y Cyngor yn darparu diweddariadau pob chwarter ar gynnydd ar ran y Gwasanaeth.

Adolygiad o'r Strategaeth

8.6 Yn Adrannau 5 a 6 y ddogfen hon, mae'r Amcanion a Chamau Gweithredu Strategol arfaethedig wedi cael eu nodi. Bydd angen adolygiadau rheolaidd er mwyn i'r Strategaeth aros yn briodol dros amser o ran monitro gweithrediad y camau a chynnig camau newydd i barhau â chynnydd tuag at yr Amcanion Strategol. Bydd graddau'r cynnydd wrth roi'r camau gweithredu ar waith yn nodi llwyddiant y Strategaeth CC.

8.7 Oherwydd bod y Strategaeth CC yn cael ei datblygu o fewn cyd-destun y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CTRh ystyried hefyd gynnydd wrth roi'r Strategaeth CC ar waith. Bydd y Cyngor, a'i bartneriaid, yn monitro ac yn adolygu CTRh TAITH a TraCC yn rheolaidd. Bydd rhaid i unrhyw newid i'r CTRh o ganlyniad i adolygiadau yn y dyfodol gael eu hystyried yn y Strategaeth hon.

8.8 Bwriedir adolygu a diweddaru Cynllun Gweithredu'r Strategaeth CC bob tair blynedd. Bydd Cynlluniau Gweithredu newydd yn cael eu datblygu'n amserol i gynnwys blynyddoedd dilynol y Strategaeth. Bydd datblygu Cynlluniau Gweithredu dilynol yn cael ei hysbysu gan y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i roi'r Cynlluniau Gweithredu blaenorol ar waith a bydd yn destun ymgynghori ac asesiadau perthnasol.

8.9 Mae'n bwysig ystyried barn defnyddwyr gwasanaethau CC wrth i'r Strategaeth CC ddatblygu. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sector CC lleol, sefydliadau cynrychioli a'u defnyddwyr dros gyfnod y Strategaeth.

Atodiad 1: Map yn Dangos yr Ardal dan sylw a'r Gwasanaeth a Gynigir gan Weithredwyr CC



Ffynhonell:
MAP: Cyngor Gwynedd
Gwybodaeth: Gweithredwyr CC

Atodiad 2: Cydlynydd Cludiant Cymunedol Gwynedd

1 Mae enghreifftiau niferus o rolau cydlynwyr yn bodoli ar draws y DU, a bydd angen i Gyngor Gwynedd i gychwyn gytuno a sefydlu'r rôl a'r cyfrifoldeb y bydd y cydlynydd yn ei gymryd, lleoliad trefniadol y rôl a'r cyfrifoldeb dydd i ddydd ar gyfer rheoli deiliad y swydd.

2 Er bod enghreifftiau o gydlynwyr sy'n gyflogeion y Cyngor, mae manteision hefyd i'r swyddog fod mewn sefyllfa hyd braich, fel y gall ef neu hi gaffael cyllid nad yw ar gael i awdurdodau lleol, o ffynonellau fel y Loteri ac Ymddiriedolaethau Elusennol.

3 Yng Nghymru, mae Sir Benfro wedi ymafael yn hyn drwy gael Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) â Chymdeithas Gweithredwyr Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO) er mwyn cyflogi cydlynydd. Ei rôl yw dod â gweithredwyr cludiant cymunedol ynghyd, annog arfer da a ffurfio rhwydwaith integredig gyda systemau archebu canolog o fewn y sector. Mae'r cydlynydd yn gweinyddu fforwm cludiant lleol gyda chyfarfod yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, ac y bu'n llwyddiannus wrth gaffael cyllid Amcan 1 a'r Loteri ac eraill i'w ddosbarthu ymysg gweithredwyr yn yr ardal. Wedi'i lleoli o fewn swyddfeydd y Cyngor yn Hwlffordd, mae mynediad rhwydd ganddi i swyddogion y Cyngor ym mhob adran ac fe'i cydnabyddir fel pwynt cyswllt canolog ar bob mater yn ymwneud â chludiant cymunedol.

4 Gan ddibynnu ar lefel gytunedig rôl y swyddog, gallai amcanion posib ar gyfer Cydlynydd gynnwys:

- Datblygu cynllun gweithredu treigl 3 blynedd i'w ddatblygu a rhoi Strategaeth Cludiant Cymunedol y Cyngor ar waith.
- Arwain y broses gynllunio ar gyfer darpariaeth cludiant cymunedol yn y dyfodol, yn cynnwys adolygiad o'r angen am gludiant ymysg grwpiau defnyddwyr, ac arwain dyrannu cyllidebau yn y dyfodol.
- Archwilio adnoddau mewnol ac allanol, a allai fod ar gael ar gyfer cludiant cymunedol ac annog eu hargaeledd, gan sicrhau integreiddio da ac osgoi dyblygu.
- Datblygu a gweithredu cynllun asesu Cyngor cyfan ar gyfer asesu ceisiadau am gyllid ac adnoddau eraill, i gynyddu'r ddarpariaeth ar draws y sir a thargedu ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.
- Monitro a gwerthuso yn rheolaidd y defnydd o gyllid ac adnoddau a ddyrennir i gludiant cymunedol.
- Sefydlu a chynnal cronfa ddata o ddarparwyr cludiant gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd.
- Rhoi cychwyn ar brosiectau newydd pan nodwyd angen amdanynt ac ni ellir cwrdd â'r angen drwy ymestyn y ddarpariaeth bresennol.

- Datblygu a rhedeg ymgyrchoedd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cludiant cymunedol yng Ngwynedd.

5 Gallai prosiectau penodol i'r Cydlynydd ymgymryd â hwy gynnwys:

- Ymchwilio i ddatblygu grŵp darparwyr Gwynedd gyfan a sefydlu'r farn ar hynny.

- Cytuno, mabwysiadu a chyfathrebu'n glir safonau gwasanaeth cyffredin ar gyfer cludiant cymunedol ar draws Gwynedd

- Adolygu ac adnewyddu Fforwm CC Gwynedd a sefydlu sianelau cyfathrebu ac ymgynghori clir ag aelodau a grwpiau defnyddwyr.

Atodiad 3: Fforwm Cludiant Cymunedol Gwynedd

1 Sefydlwyd fforymau cludiant mewn amrywiol leoliadau ar draws y DU. Mae'n bwysig sefydlu o'r cychwyn cyntaf nodau ac amcanion a Chylch Gorchwyl y Fforwm, a phwy ddylai fynychu'r cyfarfodydd hyn.

2 Gan fod strategaeth Gwynedd yn hyrwyddo integreiddio gwasanaethau, awgrymir bod y Fforwm yn adlewyrchu partneriaeth rhwng y sectorau gwirfoddol a statudol. Gallai aelodau gynnwys gweithredwyr cludiant cymunedol, Mantell Gwynedd, mudiadau sector gwirfoddol eraill gydag anghenion cludiant, swyddogion Cyngor Gwynedd o feysydd gwasanaeth allweddol fel Cludiant, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, a swyddogion o gyrff eraill fel Ymddiriedolaethau Iechyd, y Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a CTA Cymru.

3 Enghraifft o arfer da yw Fforwm CC Powys, a sefydlwyd ym 1992. Penodwyd Swyddog Datblygu CC llawn amser (Rheolwr CC ar hyn o bryd) ym 1994. Mae'r Fforwm, sy'n cwrdd bob chwarter, yn cael ei hwyluso gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO), ac mae hefyd yn cynnal y Rheolwr CC. Mae ganddo Grŵp Cynghori Rheolwyr, a etholwyd gan y Fforwm, sy'n cefnogi'r Rheolwr CC, a rhai is-grwpiau arbenigol e.e. Hyfforddiant. Mae swyddogaethau'r Fforwm yn cynnwys y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth
- Datblygu mentrau cludiant cymunedol lleol newydd
- Datblygu hyfforddiant a sgiliau
- Codi ymwybyddiaeth am faterion cludiant gwledig a chymunedol
- Mewnbwn i strategaethau cludiant integredig Powys a rhai rhanbarthol.
- Datblygu polisïau penodol
- Cydlynu ceisiadau am gyllid
- Datblygu cytundebau lefel gwasanaeth

Atodiad 4: Cynnig ar gyfer Prosiect Cludiant Peilot yn y Bala

1 Mae Arriva wedi tynnu yn ôl ei holl wasanaethau ar y daith X94 rhwng y Bala a Chorwen, sydd erbyn hyn yn teithio trwy Landderfel, ac mae angen i Wynedd ystyried opsiynau eraill yn hytrach nag adfer y gwasanaeth o ganlyniad i niferoedd isel y bobl sy'n defnyddio bws. Gallai'r opsiynau hyn gynnwys:

- Sefydlu mannau casglu ar daith yr X94, gan ddefnyddio Cludiant sy'n Ymateb i'r Galw i gasglu pobl o'u cartrefi a bwydo i mewn i'r gwasanaeth.

- Sefydlu cynlluniau ceir cymunedol lle mae angen wedi cael ei nodi a lle mae argaeledd o wirfoddolwyr, gan adeiladu ar y traddodiad o aelodau'r gymuned yn cynorthwyo trigolion oedrannus gyda'u hanghenion cludiant, ac yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol.

- Defnyddio bysiau mini addas presennol i ddarparu cyfleuster teithio grŵp wythnosol yn y setliadau mwy fel y Bala a Dolgellau. Byddai pob tref yn gallu defnyddio'r cerbyd ar ddiwrnod penodol bob wythnos.

- Lle y bo'n briodol, sefydlu fforymau cludiant lleol i roi llais i ddefnyddwyr lleol yn narpariaeth a datblygiad gwasanaethau. Yn y Bala er enghraifft, gellir cysylltu hyn ag Antur Penllyn, y cwmni datblygu cymunedol lleol.

2 Byddai angen monitro'r prosiect peilot yn ofalus dros gyfnod penodol o amser, gan edrych ar dystiolaeth o angen a'r defnydd a wneir, y canlyniadau cymdeithasol a gyflawnir a'r costau ariannol. Gellid dirprwyo rheoli'r prosiect i fudiad trydydd sector gyda phrofiad o gludiant cymunedol, yn gweithio'n agos â Chydlynydd Cludiant Cymunedol.

Atodiad 5: Enghraifft o safonau sylfaenol ar gyfer CC

Rhif.	Mesur	Nodiadau
BS1	**Statws cyfansoddiadol**	A yw'r mudiad wedi'i ymgorffori'n gyfreithiol gyda rhwymedigaeth gyfyngedig?
BS2	**Statws elusennol**	A oes gan y mudiad statws elusennol?
BS3	**Asesiad o angen**	A yw'r mudiad erioed wedi cynnal asesiad gwrthrychol o anghenion ei ddefnyddwyr, fel a nodwyd yn ei dogfennau llywodraethu?
BS4	**Safonau llywodraethu**	A yw hyfforddiant yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol?
BS5	**Cynllun strategol**	A oes gan y mudiad gynllun strategol yn ei le gydag amcanion clir, CAMPUS?
BS6	**Cynllun busnes**	A oes gan y mudiad gynllun busnes cadarn yn ei le gyda chyllidebau, rhagolygon llif arian a'i ymagwedd tuag at gyflawni adennill costau'n llawn?
BS7	**Cofrestriad TAW**	A oes angen i'r mudiad fod wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac a yw wedi asesu manteision cofrestru'n wirfoddol?
BS8	**Trwyddedu gweithredwyr**	A oes gan y mudiad drwyddedau/hawlenni priodol yn eu lle ac yn cyflogi rheolwr cludiant/cerbydau sy'n gymwys i safon CPC?
BS9	**Hyfforddiant gweithredol**	A yw gyrwyr wedi'u hyfforddi i safon MiDAS neu gyfwerth? A yw cynorthwywyr teithwyr wedi'u hyfforddi i safon PATS neu gyfwerth?
BS10	**Monitro, gwerthuso ac adrodd**	A yw'r mudiad yn mesur gweithgarwch a chynnydd mewn perthynas â dangosyddion perfformiad allweddol, yn cymryd camau priodol ar y canlyniadau ac yn adrodd ar ddeilliannau?
BS11	**Aelodaeth o fforwm**	A yw'r mudiad yn aelod gweithgar o fforwm gweithredwyr lleol/rhanbarthol?

Appendix 6: Hyfforddiant MiDAS a PATS

1 Mae'r Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch bellach yn ystyried gyrru fel un o'r gweithgareddau rheolaidd mwyaf peryglus mae pobl yn ei wneud. O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999, roddir dyletswydd ar fudiadau i ddarparu hyfforddiant priodol i'w staff. Ar wahân i'r gofynion cyfreithiol, mae manteision eraill hefyd. Bydd gyrwyr a hyfforddwyd yn gyrru cerbydau â mwy o gydymdeimlad, gan helpu i leihau costau cynnal a chadw a thanwydd. Byddant yn cael llai o ddamweiniau, fydd yn golygu taliadau yswiriant is a llai o amser pan fydd cerbydau yn segur. Yn olaf, caiff teithwyr eu cludo mewn ffordd ddiogel a chyfforddus.

2 Mae'r ddau gynllun canlynol yn darparu datrysiadau syml ond effeithiol i anghenion hyfforddiant:

2.1 Mae'r Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Bws Mini (MiDAS) yn safon a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer asesu a hyfforddi gyrwyr, a drefnir gan CTA. Mae'n gynllun aelodaeth, mae 'n rhad ac am ddim i ymuno, ac mae'n gymwys i unrhyw fudiad sy'n cludo teithwyr ar y ffordd, o grwpiau gwirfoddol bach i awdurdodau lleol sy'n gweithredu nifer helaeth o gerbydau.

Mae MiDAS yn gweithredu ar ymagwedd "rhaeadru", gyda nifer o Asiantau Hyfforddiant CTA yn cynnig hyfforddiant ar gyfer Hyfforddwr Asesu Gyrwyr Bws Mini (DATs) sydd yn eu tro yn darparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr cludiant cymunedol ar draws y wlad.
Mae gyrwyr yn mynychu sesiwn ddwys seiliedig ar theori ac yna asesiad trylwyr ar y ffordd o'u sgiliau gyrru ac asesiad ysgrifenedig. Yn dilyn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, rhoddir tystysgrif i Asiantau Hyfforddiant a DATs sy'n ddilys am ddwy flynedd, tra bod gyrwyr yn derbyn un sy'n ddilys am 4 blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod, rhaid i ddeiliaid tystysgrifau fynychu cwrs gloywi er mwyn cadw eu cymhwyster.

2.2 Mae'r Cynllun Hyfforddiant Cynorthwywyr Teithwyr (PATS) yn gweithio mewn ffordd debyg i MiDAS. Fodd bynnag, mae Asiantau Hyfforddiant CTA yn darparu hyfforddiant i Arsylwyr sydd yn eu tro yn hyfforddi Cynorthwywyr Teithwyr (CTau). Rhaid i arsylwyr a CTau gwblhau'r modiwl ar Gymorth Teithwyr Sylfaenol, ac yna gallant ddewis modiwlau dilynol o'r rhestr ganlynol:

- Cynorthwyo teithwyr gydag anableddau
- Goruchwylio plant a phobl ifanc ag anghenion arbennig
- Gweithio gydag oedolion sydd angen gofal a goruchwyliaeth
- Cymorth Brys
- Trin â Llaw

Cliciwch yma i ddychwelyd i'r Tabl Cynnwys